Grant Dewisol y Gronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau Nodiadau Cyfarwyddyd

GRANT DEWISOL Y GRONFA I FUSNESAU DAN GYFYNGIADAU – DIBEN Y GRANT

Mae Llywodraeth Cymru wedi agor y Gronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau i gefnogi busnesau ac unig fasnachwyr sydd wedi cael eu **heffeithio'n uniongyrchol** gan y cyfyngiadau estynedig i reoli lledaeniad Covid-19 a gyhoeddwyd gan y Prif Weinidog ar 29 Ionawr 2021. Diben y grant yw rhoi cymorth llif arian i fusnesau a'u helpu i oroesi canlyniadau economaidd y cyfyngiadau estynedig. Gall busnesau ddim ond **gwneud cais am un** grant o'r gronfa ddewisol o dan y cynllun estynedig hwn. Ni chaniateir ceisiadau lluosog gan yr un busnes. Fodd bynnag, mae'r cynllun estynedig hwn yn ychwanegol at y grant y gallai busnesau fod wedi'i dderbyn drwy'r Gronfa Ddewisol ar gyfer cyfnod mis Rhagfyr 2020 / Ionawr 2021. Mae'r grant yn ceisio ategu mesurau eraill sy'n ymateb i Covid-19 er mwyn cefnogi busnesau, mentrau cymdeithasol a sefydliadau elusennol yng Nghymru.

Mae'r Grant Dewisol ar gael i bob busnes sydd wedi gorfod cau neu sydd wedi cael ei effeithio'n sylweddol gan y cyfyngiadau. Gall busnesau wneud cais os ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd a nodir yn y ddogfen ganllaw hon ac yn gallu datgan gostyngiad o 40% o leiaf yn eu trosiant o'i gymharu â chyfnod masnachu cyfatebol heb gyfyngiadau cyn 23 Mawrth 2020.

datgan gostyngiad o 40% neu fwy mewn trosiant o ganlyniad i'r cyfyngiadau.

The grant will be open to applications from 10 February 2021 and will close at a date to be specified by the local authority or when the fund has been fully committed.

BUSNES CYMRU

Mae Busnes Cymru yn darparu cymorth wedi'i deilwra i fusnesau newydd, microfusnesau a busnesau bach a chanolig yng Nghymru. Gall y gwasanaeth eich helpu i ddeall eich anghenion a darparu pecynnau cymorth wedi eu teilwra, gan gynnwys mynediad at offerynnau ar-lein, gweithdai, cynghorwyr arbenigol a mentoriaid. Yn ogystal â gweithio gyda chi i lunio cynllun gweithredu a diagnostig busnes, gall ein cynghorwyr ddarparu cyngor ariannol wedi'i dargedu a chael mynediad at gymorth arall a allai fod o fudd i chi.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.busnescymru.llyw.cymru.

GRANT DEWISOL Y GRONFA I FUSNESAU DAN GYFYNGIADAU - PWY SY'N GALLU GWNEUD CAIS?

Mae'n **bosibl** y bydd busnesau sy'n bodloni'r meini prawf canlynol yn gymwys ar gyfer y grant:

- Roedd y busnes yn masnachu cyn 1 Hydref 2020
- Rhaid bod y busnes yn gweithredu yng Nghymru
- Rhaid i fusnesau fod ag o leiaf **un** o'r canlynol
    - Cyfeirnod Unigryw Trethdalwr (UTR) gan CThEM
    - Rhif Cofrestru TAW neu Dystysgrif Eithrio o TAW (os yw'n berthnasol)
    - Rhif Cofrestru'r Cwmni (os yw'n berthnasol)

    - Rhif trwydded cerbyd hacni neu rif trwydded minicab preifat (os yw'n berthnasol)
- Mae'r busnes wedi gorfod cau neu wedi dioddef gostyngiad mewn trosiant >40% **o ganlyniad uniongyrchol** i'r cyfyngiadau a gyflwynwyd yng Nghymru ac a gafodd eu hymestyn wedyn
- Cwmni cyfyngedig gyda throsiant o rhwng £10,000 a £50,000
- Unig fasnachwyr / partneriaethau â throsiant sy'n llai na £85,000
- Rhaid mai'r busnes yw eich prif ffynhonnell incwm (>50%)
- Rhaid i fusnesau sy'n derbyn cymorth geisio cadw eu gweithwyr cyflogedig am 12 mis
- Ni chaiff unrhyw fusnes wneud mwy nag un cais
- Dylai busnesau fod wrthi'n masnachu hyd at 4 Rhagfyr pan gyflwynwyd y cyfyngiadau newydd yng Nghymru ac efallai y bydd yn ofynnol iddynt ddarparu tystiolaeth i ddangos hyn
- Ni all cyfanswm y grantiau cymorth Covid-19 (gan gynnwys unrhyw ddyfarniad arall drwy'r gronfa ddewisol hon) fod yn fwy nag 80% o drosiant ymgeisydd ar gyfer blwyddyn fasnachu nodweddiadol.[1]

GRANT DEWISOL Y GRONFA I FUSNESAU DAN GYFYNGIADAU – FAINT O ARIAN ALLWCH CHI WNEUD CAIS AMDANO?

Mae grant dewisol o £2,000 ar gael i gynorthwyo busnesau sydd:

- Wedi gorfod cau o ganlyniad i'r cyfyngiadau cenedlaethol sydd wedi'u cyflwyno.
- Hefyd, bydd y grant yn cefnogi busnesau sy'n amcangyfrif y bydd y cyfyngiadau estynedig sydd wedi'u cyflwyno yn arwain at ostyngiad o 40% o leiaf yn eu trosiant o'i gymharu â chyfnod masnachu cyfatebol heb gyfyngiadau cyn 23 Mawrth 2020. Bydd angen i ymgeiswyr a ddechreuodd fasnachu ar ôl 23 Mawrth 2020 ddatgan (ac efallai y gofynnir iddynt ddangos) gostyngiad o 40% mewn trosiant ar gyfer cyfnod masnachu cyfatebol ers iddynt ddechrau mewn busnes.
- Mewn perthynas â llety hunanarlwyo, ni fydd eiddo yn gymwys i dderbyn y grant oni fodlonir y meini prawf canlynol:
    - Gall y llety hunanarlwyo ddarparu dwy flynedd o gyfrifon masnachu am y cyfnod yn union cyn blwyddyn ariannol gyfredol y busnes
    - Rhaid bod y llety hunanarlwyo wedi'i osod am gyfnod o 140 diwrnod neu fwy ym mlwyddyn ariannol 2019-20
    - Rhaid i'r busnes llety hunanarlwyo fod yn brif ffynhonnell incwm i'r perchennog (isafswm trothwy yw 50%).

Ar gyfer eiddo hunanarlwyo, mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn llawn i ofyn i archwilio cyfrifon busnes masnachu, rhestrau archebu a ffurflenni treth hunanasesu a gyflwynwyd i CThEM ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 os oes angen tystiolaeth ychwanegol i ddangos bod y meini prawf hyn wedi'u bodloni.

[1]Gallai grantiau cymorth Covid-19 gynnwys Grantiau Ardrethi Annomestig, grantiau'r Gronfa Ddewisol leol a'r Gronfa Cadernid Economaidd (cylchoedd gwahanol) a Grant y Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig (SEISS).

Nid ydych yn gymwys i dderbyn y grant hwn:

- Os ydych yn gymwys i dderbyn, neu eich bod wedi derbyn, Grant Ardrethi Annomestig y Gronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau gan eich Awdurdod Lleol
- Os yw'r busnes yn cynhyrchu llai na 50% o'ch incwm. Rhaid mai'r busnes yw eich prif ffynhonnell incwm.
- Rydych yn gymwys i dderbyn taliad 'atodol' drwy'r Gronfa i Weithwyr Llawrydd estynedig.
- Os ydych wedi derbyn taliad drwy rhaglen Plant a Chymunedau Llywodraeth Cymru i gwrdd a colledion gweithredol rhwng Medi 2020 a Mawrth 2021.
- Mae cyfanswm y grantiau cymorth Covid-19 rydych wedi'u derbyn (gan gynnwys unrhyw ddyfarniad arall drwy'r gronfa ddewisol hon) yn fwy nag 80% o'ch trosiant ar gyfer blwyddyn fasnachu nodweddiadol.

Mae angen i fusnesau gadarnhau sut y bydd y cyfyngiadau estynedig a gyhoeddwyd ar 29 Ionawr gan y Prif Weinidog yn effeithio'n negyddol ar eu busnes.

Bydd pob cais yn cael ei ystyried yn unigol, a'r Awdurdod Lleol fydd â'r disgresiwn llawn i dalu'r grant – yn unol â'r meini prawf a amlinellir yn y canllawiau hyn.

GRANT DEWISOL Y GRONFA I FUSNESAU DAN GYFYNGIADAU - SUT I WNEUD CAIS

Gall busnesau wneud cais am y grant drwy fynd i dudalen we Cronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau eu Hawdurdod Lleol. Os ydych yn gymwys, byddwch yn gallu agor y ffurflen gais ar-lein, cwblhau'r holl feysydd gofynnol a chyflwyno'ch cais. Sylwch fod pob maes yn orfodol – bydd methu â'u cwblhau **yn arwain** at wrthod eich cais.

Ymdrinnir â cheisiadau ar sail y **cyntaf i'r felin**. **Gall** hyn olygu na fydd ceisiadau yn cael eu gwerthuso ar ôl iddynt gael eu cyflwyno os yw'r gronfa wedi'i hymrwymo'n llawn. Bydd ymgeiswyr yn cael gwybod am hyn drwy e-bost.

Mae gan yr Awdurdod Lleol ddisgresiwn absoliwt o safbwynt hyd a thelerau'r gronfa.

GRANT DEWISOL Y GRONFA I FUSNESAU DAN GYFYNGIADAU – CANLLAWIAU AR GWBLHAU'R FFURFLEN

Adran 1 – Eich manylion personol
Mae'r adran hon yn gofyn am wybodaeth amdanoch chi, yr ymgeisydd / perchennog y busnes.

Adran 2 – Gwybodaeth am eich busnes
Mae'r adran hon yn gofyn am wybodaeth am eich busnes. Gwnewch yn siŵr bod y manylion yn yr adran hon yn gywir ac yn gyflawn. **Ni** fydd ffurflenni sy'n cynnwys data anghyflawn neu anghywir yn cael eu prosesu.

Ni fydd busnesau'n **gymwys** i dderbyn y grant os yw un o'r categorïau canlynol yn berthnasol iddynt:

- Gorfodwyd i gau ar ôl torri rheolau cadw pellter cymdeithasol. Fodd bynnag, os oes gwelliannau wedi'u gwneud a bod y busnes wedi cael ei ailagor yna mae'n bosibl y gall fod yn gymwys i gael y grant (yn amodol ar fodloni'r meini prawf cymhwysedd)
- Busnesau a ddewisodd gau ond nad yw'n ofynnol iddynt wneud hynny
- Mae'r busnes wedi'i ddiddymu neu yn y broses o gael ei ddileu
- Wedi torri'r trothwy cymhorthdal
- Os nad y busnes sy'n destun eich cais yw eich prif ffynhonnell incwm

Adran 3 – Effaith y cyfyngiadau symud ar eich busnes
Nodwch a yw'r datganiad yn y ffurflen gais yn berthnasol i'ch busnes ai peidio. Mae'n bosibl y bydd yr awdurdod lleol yn gofyn am ragor o wybodaeth/dogfennau fel prawf o'r amcangyfrif o'r gostyngiad mewn trosiant. Hefyd yn yr adran hon, dywedwch wrthym sut y bydd y cyfyngiadau diweddaraf a gyflwynwyd ym mis Rhagfyr yn effeithio yn **uniongyrchol** ar eich busnes

Adran 4 – Manylion Banc
Rhowch fanylion eich cyfrif banc busnes gan y bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i wneud y taliad grant i chi – gwnewch yn siŵr bod y manylion hyn yn gywir.
Gallai'r awdurdod lleol ofyn am eich cyfriflenni banc diweddaraf a gwybodaeth bellach i ddangos tystiolaeth o'r gweithgarwch masnachu.

Adran 5 – **Rheoli Cymorthdaliadau**

Os dyfernir grant i chi, rhaid i chi sicrhau bod eich defnydd ohono yn gydnaws â'r cytundebau perthnasol a nodir yn rheolau Sefydliad Masnach y Byd, Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU-UE, unrhyw Gytundeb Masnach Rydd sy'n cynnwys y DU, Protocol Gogledd Iwerddon ac unrhyw ddeddfwriaeth ddomestig.

Fel rhan o'ch cais, rhaid i chi ddatgan a ydych wedi derbyn unrhyw gymhorthdal (yn unol â diffiniad Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU-UE) yn ystod y tair blynedd ariannol flaenorol (h.y. y flwyddyn ariannol bresennol a'r ddwy flynedd ariannol flaenorol) ynghyd â'r swm a dderbyniwyd a manylion y corff dyfarnu.

Gallai enghreifftiau gynnwys y Gronfa Cadernid Economaidd, Grant Cychwyn Busnes, Grant yr Ardreth Annomestig (cylch 1).

Adran 6 – Datganiadau

Darllenwch y datganiadau a thiciwch y blychau i gadarnhau eich bod yn eu deall ac yn eu derbyn.

Mae'n bwysig iawn eich bod wedi darllen a deall y ddogfen ganllawiau hon.

GRANT DEWISOL Y GRONFA I FUSNESAU DAN GYFYNGIADAU
BETH SY'N DIGWYDD AR ÔL I'R CAIS GAEL EI DDERBYN?

Cydnabyddir bod eich cais wedi cael ei dderbyn o fewn 10 diwrnod gwaith.

Bydd penderfyniadau yn ymwneud â cheisiadau'n cael eu gwneud ar sail y wybodaeth a roddir yn y ffurflen gais, y dystiolaeth gysylltiedig a gwybodaeth o wiriadau a gynhelir ar ffynonellau data busnes arall. Os oes unrhyw ddata yn anghyflawn neu'n anghywir, neu os

yw'r dystiolaeth sydd wedi'i darparu yn annigonol, ni fyddwn yn prosesu'r ffurflen a gwrthodir y cais.

Ein nod yw prosesu ceisiadau grant **terfynol** o fewn 30 diwrnod i'w derbyn.

Bydd 100% o'r grant yn cael ei dalu ymlaen llaw.

Os nad yw eich cais yn llwyddiannus, byddwch yn derbyn e-bost yn amlinellu'r rheswm/rhesymau dros wrthod eich cais. Nid oes proses apelio.

GRANT DEWISOL Y GRONFA I FUSNESAU DAN GYFYNGIADAU - AD-DALU GRANTIAU

Dylai ymgeiswyr nodi ei bod yn bosibl y bydd yr Awdurdod Lleol yn gofyn i'r grant gael ei ad-dalu'n llawn neu'n rhannol os oes tystiolaeth yn dod i'r amlwg nad oedd yr ymgeisydd yn gymwys ar gyfer Grant Dewisol y Gronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau.